Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

# Rheolwyr gofal preswyl i blant sydd ar y Gofrestr

## 1 Ebrill 2019

### Beth yw'r prif bwyntiau?

Mae rheolwyr gofal preswyl i blant wedi cofrestru gyda ni ers **2007**

Mae **231** o reolwyr wedi'u cofrestru, sef cynnydd ar **205** y llynedd

Mae **217** yn gweithio mewn gofal preswyl i blant ar hyn o bryd

Mae **185** o wasanaethau gofal preswyl i blant wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru

Mae rhai rheolwyr sydd ar y Gofrestr yn gweithio fel dirpwy reolwyr neu reolwyr cynorthwyol

### Beth yw'r tueddiadau?

Mae nifer y rheolwyr gofal preswyl i blant sydd ar y Gofrestr wedi tyfu **29%** yn y pum mlynedd diwethaf

Nid yw'r gyfradd menywod i ddynion (**2:1**) wedi newid

Mae canran y rheolwyr sy'n gweithio yn y sector preifat wedi cynyddu o **76% yn 2014** i **78% eleni**

Mae'r ganran o reolwyr sydd wedi bod yn eu rolau cyfredol ers o leiaf pum mlynedd wedi cynyddu o **25% yn 2014** i **33% eleni**

### Faint sydd wedi gadael ac wedi ymuno â'r Gofrestr?

Yn y flwyddyn ddiwethaf, gadawodd **14** o reolwyr y Gofrestr ac ymunodd **40**

O'r rhai a adawodd y Gofrestr, dilëwyd **64%** ohonynt gan nad oeddent wedi cynnal eu cofrestriad

Roedd **36%** o'r rhai a adawodd wedi gofyn am gael eu dileu gan nad oeddent bellach yn gweithio mewn gofal preswyl i blant yng Nghymru

### Pa gymwysterau sydd gan reolwyr?

Mae gan bob rheolwr gofal preswyl i blant gymhwyster perthnasol

Bellach, mae gan **54%** o reolwyr Ddiploma Lefel 5 Fframwaith Cymwysterau a Chredydau mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Rheolaeth Gofal Preswyl i Bobl Ifanc (Cymru)

Mae'r gan y gweddill gymhwyster cyfwerth

### Ym mhle mae rheolwyr yn cael eu cyflogi?

Mae **74%** yn gweithio yn y sector preifat

Mae **17%** yn gweithio i wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

Mae **33%** o reolwyr wedi bod yn eu rolau presennol ers o leiaf pum mlynedd

Mae **52%** o reolwyr wedi newid eu rolau yn ystod y tair mlynedd ddiwethaf

### Beth yw proffil y rheolwyr?

Mae **144** o fenywod ac **87** o ddynion

Ar gyfartaledd, mae rheolwyr yn **44** mlwydd oed

Mae **96%** o reolwyr yn wyn, gwyn Prydeinig, gwyn Cymreig neu gwyn Gwyddelig

Mae **34%** o reolwyr un ai'n siarad peth Cymraeg neu'n rhugl yn y Gymraeg

Mae gan **1%** o reolwyr anabledd